# Y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch

## Adran D: Sicrhau cydraddoldeb a safoni

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2023

Wedi'i ddiwygio: Gorffennaf 2025

# Cynnwys


**1 Cyflwyniad....1**

**2 Sicrhau safonau cyson a chyfatebol....1**

a) Dyfarnu graddau drwy ystyried amgylchiadau esgusodol, sicrhau cydraddoldeb a safoni....2

**3 Y beirniadaethau a'r broses farnu....2**

**4 Sicrhau cydraddoldeb....2**

**5 Safoni....3**

a) Safoni mewnol....3

b) Recriwtio, dethol a phenodi safonwyr allanol....3

c) Ymsefydlu a hyfforddi safonwyr allanol....4

d) Y broses safoni allanol....4

e) Samplu gwaith y myfyrwyr i'w safoni'n allanol....5

**6 Cadw cofnodion....5**

**7 Gwybodaeth bellach....6**

**Rheoli fersiynau....7**

# 1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon o Lawlyfr y Cynllun Graddio'n crynhoi'r ffyrdd y defnyddir y prosesau sicrhau cydraddoldeb a safoni i sicrhau dull cyffredin o raddio a safonau cyson a chyfatebol wrth ddyfarnu graddau ar gyrsiau'r Diploma Mynediad i AU.

Mae'r Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch (Asiantaethau DMiAU) yn gyrff sy'n dyfarnu'r Diploma Mynediad i AU, felly maen nhw'n gyfrifol am safonau'r dyfarniadau a roddant. Mae gofyn i bob Asiantaeth DMiAU gynnal system safoni i sicrhau bod safonau cyflawniad y myfyrwyr yn gyson ac yn ddigonol. Mae Amod E1 yr *Amodau Mynediad i Addysg Uwch* yn gofyn i bob Asiantaeth DMiAU "sefydlu a gweithredu gweithdrefnau sicrhau cydraddoldeb a safoni wedi eu dogfennu'n glir sy'n sicrhau dull cyffredinol o asesu a graddio a safonau cyson a chyfatebol wrth ddyfarnu graddau ar gyrsiau'r Diploma Mynediad i AU".

Mae Adran E yr *Amodau Mynediad i AU* yn nodi'r gofynion o ran gosod, darparu a safoni asesiadau y mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU eu bodloni er mwyn derbyn a chadw ei thrwydded.

# 2 Sicrhau safonau cyson a chyfatebol

Mae'r Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU yn nodi nifer o brosesau cyffredin a nodweddion eraill (mae manylion i'w gweld mewn adrannau eraill o'r canllawiau hyn, fel y nodir isod) sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio fframwaith ar gyfer sicrhau cysondeb yn yr arferion graddio cyfan.

Mae'r nodweddion penodol hyn yn sail gyffredin i'r holl weithrediad ac yn gosod y sylfeini hanfodol ar gyfer sicrhau deilliannau cyfatebol ac ansawdd y broses raddio. Mae sicrhau cydraddoldeb a safoni yn waith hanfodol o fewn y fframwaith hwn.

Dyma'r nodweddion hyn:

- tair Safon Raddio gyffredin, sy'n diffinio'r meysydd perfformiad a asesir drwy'r broses raddio ar gyrsiau Mynediad i AU (gwelwch Adran B)
- cyfres o ddatganiadau 'teilyngdod' a 'rhagoriaeth' ar gyfer pob un o'r Safonau Graddio, sy'n bwyntiau cyfeirio safonol ar gyfer yr holl benderfyniadau graddio (gwelwch Adran B)
- elfennau manwl ar gyfer pob datganiad 'teilyngdod' neu 'ragoriaeth', sy'n caniatáu i'r safonau gael eu haddasu o fewn cyfyngiadau penodol, er mwyn eu gwneud yr un mor briodol i wahanol feysydd astudio a gwahanol aseiniadau (gwelwch Adran B)
- canllawiau am lunio geiriad y safonau a'u helfennau a'u his-elfennau i gefnogi dealltwriaeth a dehongliad cyffredin o'r safonau (gwelwch Adran B)
- cyfarwyddiadau manwl ynglŷn â'r broses i'w dilyn wrth benderfynu ar y radd derfynol ar gyfer pob uned (gwelwch Adran C)
- rheoliadau ynglŷn â'r nifer a'r mathau o gyfleoedd ailasesu a ganiateir, a'r ffyrdd derbyniol o'u gweithredu (gwelwch Adran C)
- gofynion o ran safoni sy'n diffinio sut y bydd y safonwyr yn cadarnhau bod y prosesau graddio'n cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac y defnyddir y Safonau Graddio mewn ffordd gyson wrth benderfynu ar raddau (gwelwch Adran D)
- gweithdrefnau safonol sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r darparwyr/canolfannau a'r Asiantaethau DMiAU yn cadarnhau ac yn dyfarnu graddau (gwelwch Adran E).

### a) Dyfarnu graddau drwy ystyried amgylchiadau esgusodol, sicrhau cydraddoldeb a safoni

Mae Adran D Llawlyfr y Cynllun Graddio'n crynhoi'r ffyrdd y defnyddir y prosesau sicrhau cydraddoldeb a safoni i sicrhau dull cyffredin o raddio a safonau cyson a chyfatebol wrth ddyfarnu graddau ar gyrsiau'r Diploma Mynediad i AU.

Mae'r Asiantaethau DMiAU yn gyrff sy'n dyfarnu'r Diploma Mynediad i AU, felly maen nhw'n gyfrifol am safonau'r dyfarniadau a roddant. Mae gofyn i bob Asiantaeth DMiAU gynnal system safoni i sicrhau bod safonau cyflawniad y myfyrwyr yn gyson ac yn ddigonol.

Dylid trin y symudiad i ddulliau asesu sy'n ystyried amgylchiadau esgusodol fel unrhyw ddull asesu arall.

Dylid sicrhau ansawdd pob darn o dystiolaeth a gyflwynir ar gyfer y broses o ddyfarnu'r Diploma drwy ystyried amgylchiadau esgusodol, yn unol â'r rheoliadau sydd wedi eu disgrifio yn y Cynllun Cydnabod ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch.

## 3 Y beirniadaethau a'r broses farnu

Mae'r safoni a'r sicrhau cydraddoldeb yn ymwneud â sicrhau y gweithredir y broses asesu a graddio mewn ffordd gyson, fel y mae wedi ei ddisgrifio uchod. Ond, nid yw dilyn gweithdrefnau cyffredin, ynddo'i hun, yn sicrhau deilliannau cyfatebol, am fod y deilliannau'n dibynnu hefyd ar y penderfyniadau unigol a wneir. Yn yr un modd, er ei bod hi'n hanfodol cael cadarnhad allanol bod gweithdrefnau penodol wedi eu dilyn wrth ddarparu sail gyffredin ar gyfer dyfarniadau, nid yw'n ddigon i sicrhau y gwneir beirniadaethau cyson a chyfatebol a bod y deilliannau i'r myfyrwyr yn ddeg. Er nad yw hi'n bosibl gwahanu penderfyniadau asesu'n llwyr oddi wrth y broses asesu, am fod penderfynu'n rhan o'r broses honno, mae'n bwysig rhoi sylw arbennig nid yn unig i **sut** mae beirniadaethau'n cael eu gwneud ond **pa** feirniadaethau sy'n cael eu gwneud.

## 4 Sicrhau cydraddoldeb

Am fod graddau'n cael eu rhoi ar gyrsiau'r Diploma Mynediad i AU, mae **angen i'r broses sicrhau cydraddoldeb roi sylw penodol i'r beirniadaethau gwahaniaethol** a ddangosir trwy ddyfarnu graddau ar wahân. Dylai dulliau'r Asiantaeth DMiAU o sicrhau cydraddoldeb ganolbwyntio ar y beirniadaethau a roddir am y defnydd a wneir o'r dangosyddion graddau 'pasio', 'teilyngdod' neu 'ragoriaeth', fel y maen nhw'n cael eu cymhwyso ar gyfer pob un o'r disgrifwyr gradd, mewn gwahanol feysydd astudio.

Mae pob Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am lunio a gweithredu ei dulliau ei hun o sicrhau cydraddoldeb, ac am bennu fformat a chanolbwynt ei digwyddiadau sicrhau cydraddoldeb. Mae Amod E1 yn gofyn i bob Asiantaeth DMiAU wneud yn siŵr bod eu mecanweithiau'n cymryd i ystyriaeth yr angen am:

- sicrhau cydraddoldeb o fewn y Darparwr
- sicrhau cydraddoldeb rhwng Darparwyr
- safoni i sicrhau cydraddoldeb.

Bydd y dulliau penodol a ddefnyddir i sicrhau cydraddoldeb yn dibynnu ar faint yr Asiantaeth DMiAU, dosbarthiad daearyddol ei darparwyr neu ei chanolfannau, y ffordd y trefnir y ddarpariaeth (er enghraifft, i ba raddau y defnyddir unedau cyffredin gan wahanol ddarparwyr/ganolfannau), a natur yr asesiad (er enghraifft, i ba raddau yr asesir y myfyrwyr drwy aseiniadau cyffredin). Ond, ymhob achos, dylai pob Asiantaeth DMiAU lunio ei dulliau sicrhau cydraddoldeb i sicrhau bod y beirniadaethau asesu a graddio yn:

- **ddilys** - mae safonau'r dyfarniadau'n cyfateb â'r pwyntiau cyfeirio allanol sy'n berthnasol i'r Diploma Mynediad i AU (mae hyn yn golygu bod y graddau a roddir i waith a aseswyd yn adlewyrchu'r safon cyflawniad a ddiffinnir yn neilliannau dysgu'r uned ac elfennau ac is-elfennau'r radd a ddefnyddir o'r safonau graddio)
- **ddibynadwy** - mae safonau cyson a chyfatebol wrth ddyfarnu graddau'n cael eu cynnal gan y tiwtoriaid unigol, o fewn timau'r cyrsiau, ar draws y darparwyr/canolfannau, ar draws yr Asiantaeth DMiAU gyfan, a dros amser (h.y. rhoddir yr un radd/graddau pan ddangosir bod y safonau perfformiad yn gymaradwy).

# 5 Safoni

Mae'r canllawiau yn y ddogfen hon yn gweithredu yng nghyd-destun ehangach yr *Amodau Mynediad i Addysg Uwch* sy'n nodi'r egwyddorion trosfwaol a'r gofynion penodol o ran safoni dyfarniadau Mynediad i AU. Mae'r *Amodau Mynediad i Addysg Uwch* yn dal i roi'r prif bwynt cyfeirio sy'n nodi disgwyliadau QAA o ran trefnau safoni'r Asiantaethau DMiAU, a nod y Cynllun Graddio a'r canllawiau cysylltiedig yw ategu, yn hytrach na disodli, unrhyw rai neu bob un o'r Amodau Mynediad i Addysg Uwch cyfredol.

Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod eu gweithdrefnau safoni a'u canllawiau i safonwyr yn cydymffurfio â'r *Amodau*, gan sicrhau bod safonau cyflawniad y myfyrwyr yn ddilys ac yn ddibynadwy.

## a) Safoni mewnol

Yn ôl Amodau E4.1 ac E4.2, "mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU osod gofynion i sicrhau bod ei Darparwyr yn defnyddio gweithdrefnau safoni mewnol trwyadl sy'n hwyluso:

- gosod safonau cyson a chyfatebol o her academaidd mewn asesiadau
- asesiadau a gynllunnir er mwyn sicrhau orau fod deilliannau'r asesiadau'n ddilys ac yn ddibynadwy
- bodloni gofynion Manyleb y Diploma Mynediad i Addysg Uwch a'r Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch mewn ffordd gyson a chywir."

Yn ymarferol, dylai hyn olygu y gweithredir y broses hon yn unol â gofynion cyhoeddedig yr Asiantaeth DMiAU, a bydd hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth reolaidd i weithrediad y broses raddio a phriodoldeb y graddau arfaethedig. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r broses safoni'n gweithredu ar ddwy lefel: safoni/gwirio mewnol a safoni allanol.

Dylai'r Asiantaeth DMiAU gyhoeddi ei gofynion o ran y broses safoni fewnol, a fydd yn talu sylw i systemau ansawdd y darparwyr eu hunain, ac yn nodi y dylai gweithrediad y broses safoni fewnol gael ei fonitro a'i gadarnhau drwy'r broses safoni allanol. Mewn rhai achosion, efallai na fydd hi'n bosibl gweithredu proses safoni mewnol gadarn. Mae'r Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am wneud trefniadau amgen i gyflawni'r un nodau dan amgylchiadau o'r fath.

## b) Recriwtio, dethol a phenodi safonwyr allanol

Yn ôl Amod E4.3, "dylai'r Asiantaeth DMiAU weithredu gweithdrefnau safonol ar gyfer dethol a phenodi safonwyr allanol sy'n sicrhau bod ei safonwyr:

- yn meddu ar brofiad perthnasol mewn addysgu ac asesu ym meysydd addysg i oedolion, addysg bellach neu addysg uwch;
- yn meddu ar wybodaeth berthnasol a chyfredol yn y maes/meysydd astudio y maent yn gyfrifol amdano/amdanynt, ar lefel sy'n gyfatebol â lefel eu gwaith safoni neu'n uwch;

- yn dod o'r tu allan i'r Darparwr/Darparwyr a fydd dan sylw yn eu gwaith safoni; ac
- wedi datgelu unrhyw wrthdaro buddiannau hysbys neu debygol a gofnodir gan yr Asiantaeth DMiAU."

Dylai'r rheiny sy'n gweithio fel safonwyr fod â digon o arbenigedd a phrofiad i'w galluogi i wahaniaethu safonau perfformiad y gwahanol fyfyrwyr sydd ar lefel 3 yn y meysydd astudio hynny y mae'r safonwyr hyn wedi'u penodi i'w safoni.

## c) Ymsefydlu a hyfforddi safonwyr allanol

Mae Amod E4.4 yn nodi bod "pob Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am ymsefydlu a hyfforddi safonwyr allanol er mwyn sicrhau bod ganddynt y cymwysterau priodol sy'n ofynnol i:

- farnu yn erbyn safonau perfformiad sy'n dangos cyflawniad yn unol â disgrifydd lefel 3 Ofqual yn Lloegr, neu lefel 3 *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC)
- feirniadu pa mor gymaradwy yw safonau mewnbwn ac allbwn asesiadau ar draws y ddarpariaeth sydd dan sylw yn eu gwaith safoni."

Dylid rhoi gwybod i'r safonwyr eu bod nhw'n warcheidwaid safonau ar gyfer Mynediad i AU, a dylid esbonio'n glir beth yw goblygiadau'r rôl hon wrth ddyfarnu graddau cyn iddyn nhw ddechrau unrhyw waith safoni.

Mae Amod E4.4 hefyd yn nodi y "dylai pob Asiantaeth DMiAU ddarparu canllawiau ysgrifenedig i'w safonwyr a'u Darparwyr sy'n rhoi manylion pob agwedd o fodel asesu'r Diploma Mynediad i AU, gan gynnwys gwybodaeth am brosesau a safonau graddio."

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod safonwyr yn derbyn gwybodaeth gyflawn am y pethau hyn:

- sut yr asesir gwaith y myfyrwyr Diploma Mynediad i AU
- y berthynas rhwng y graddau a ddyfernir a'r credydau a ddyfernir, a'r cymhwyster cyfan
- y ffaith bod y Safonau Graddio cyffredin yn elfen ganolog a sut mae eu helfennau a'u his-elfennau'n cael eu haseinio i unedau
- y gofynion penodol yn ymwneud â sut mae'r Safonau Graddio a'u helfennau a'u his-elfennau'n cael eu defnyddio gyda gwaith y myfyriwr
- y broses o benderfynu ar y graddau ar gyfer yr uned.
- y cyfle sydd ar gael i'r safonwyr i drafod ac egluro nodweddion dull asesu'r Asiantaeth DMiAU iddynt os ydyn nhw'n ansicr amdanynt.

## d) Y broses safoni allanol

Yn unol â'r gweithdrefnau safonol sy'n ofynnol yn ôl Amod E4.3, dylai pob Asiantaeth DMiAU sicrhau:

- y rhoddir y gyfres gyflawn a chyfredol o'r Safonau Graddio (fel y maent wedi eu cyhoeddi ar wefan QAA) i bob aelod perthnasol o staff y darparwyr/canolfannau, neu fod modd iddyn nhw eu cyrchu
- bod y cynlluniau asesu a briffiau'r aseiniadau'n darparu cyfleoedd dilys, dibynadwy a theg i roi beirniadaethau gwahaniaethol am berfformiad cysylltiedig y myfyriwr
- bod cynlluniau asesu'r unedau'n hwyluso defnydd dilys o elfennau ac is-elfennau'r Safonau Graddio a ddewisir i asesu perfformiad myfyrwyr

- y rhoddir adborth defnyddiol i'r myfyrwyr mewn perthynas â graddau
- bod yr arferion asesu'n cyfateb â gofynion y Diploma Mynediad i AU a'r manylebau credydau, ac â chanllawiau graddio QAA - ac yn arbennig y canlynol hefyd:
    - y penderfynir ar raddau gan gyfeirio dim ond at elfennau ac is-elfennau'r Safonau Graddio a ddewisir ar gyfer yr uned
    - y disgrifir perfformiad y myfyrwyr yn unol â'r gofynion cyhoeddedig, gan ddefnyddio'r graddau 'pasio', 'teilyngdod' a 'rhagoriaeth' yn unig, ac heb ddefnyddio unrhyw drefn raddio arall
    - y penderfynir ar raddau ar gyfer unedau yn unol â'r gweithdrefnau a rheoliadau asesu perthnasol sydd wedi eu disgrifio yng nghanllawiau graddio QAA.
- y gweithredir y broses o raddio wrth asesu mewn ffordd gyson a chywir, gan roi graddau sy'n ddilys ac yn ddibynadwy
- y dewisir elfennau ac is-elfennau o'r Safonau Graddio sy'n berthnasol ac yn ddilys
- y defnyddir graddau ar lefel y cwrs mewn ffordd ddibynadwy - lle mae safon perfformiad gyfatebol ar fathau cyfatebol o waith a aseswyd gan wahanol fyfyrwyr, bod yr un radd yn cael ei hargymell
- y cedwir cofnodion sy'n ymwneud â graddau mewn ffordd briodol (gwelwch adran 6 isod)
- bod y prif safonwyr (neu swyddog cyfatebol) yn cymryd rhan yn y prosesau sicrhau cydraddoldeb a'u bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Byrddau Dyfarnu ac yn aelodau llawn ohonynt (gwelwch Adran E)
- bod y safonwyr yn rhoi adroddiadau rheolaidd i'r Asiantaeth DMiAU a bod hwythau'n cymryd camau gweithredu mewn ymateb iddyn nhw (Amod E4.5).

### e) Samplu gwaith y myfyrwyr i'w safoni'n allanol

Yn unol â'r gweithdrefnau safonol sy'n ofynnol yn ôl Amod E4.3, dylai pob Asiantaeth DMiAU sicrhau:

- bod y nifer o samplau o waith a aseswyd yn cyfateb â chanllawiau'r Asiantaeth DMiAU ynglŷn â maint gofynnol y samplau a sut i'w gyfrifo. Hefyd, gallai canllawiau'r Asiantaeth DMiAU ganiatáu i'r safonwr wneud gofynion penodol i ymateb i normau pwnc a chymryd i ystyriaeth garfannau o fyfyrwyr eithriadol fach neu fawr.
- bod yr amrediad o samplau o waith a aseswyd yn cyfateb â chanllawiau'r Asiantaeth DMiAU ynglŷn â'r amrediad. Bydd y canllawiau hyn yn nodi y dylai'r sampl gynnwys amrediad o dystiolaeth gan wahanol fyfyrwyr o'u llwyddiant i gyflawni'r un unedau cyfan, gyda chofnodion o'r proffiliau graddio a'r graddau arfaethedig perthnasol ar gyfer yr unedau hynny.

## 6 Cadw cofnodion

Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod y darparwyr/canolfannau'n gallu darparu'r cofnodion sy'n ofynnol i alluogi dyrannu graddau ar gyfer cyrsiau Diploma Mynediad i AU mewn ffordd ddibynadwy. Yn ôl Amod B5, mae pob Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am "gynnal a chadw cofnodion cywir o'r graddau, y credydau a'r Diplomâu a ddyfernir ganddi."

Trwy gyfrwng y safoni, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU gadarnhau bod y darparwyr/canolfannau'n cadw cofnodion llawn a ffurfiol mewn ffordd briodol, a bod y cofnodion yn eglur, yn gynhwysfawr ac yn hygyrch, er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth y maent yn seilio eu dyfarniadau arni'n gyflawn, yn gyfredol ac yn ddibynadwy.

Dylai polisïau ac arferion yr Asiantaethau DMiAU sy'n ymwneud â rheoli a chadw cofnodion gyfateb â'r egwyddorion o arfer da mewn rheoli cofnodion, ac â'r ddeddfwriaeth diogelu data gyfredol, a dylent sicrhau bod y cofnodion o'r prosesau asesu a dyfarnu:

- yn cael eu cadw'n ddiogel er mwyn atal mynediad diawdurdod atynt
- yn cael eu cynnal a'u diweddaru fel sy'n ofynnol er mwyn sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyfredol
- ar gael i'w gweld a'u trosglwyddo'n ddiogel, os bydd angen, i leoliadau, systemau neu dechnolegau eraill, yn cynnwys at ddibenion casglu credydau a'u trosglwyddo i Asiantaethau DMiAU eraill
- yn cael eu dinistrio'n ddiogel os na fydd hi'n ofynnol eu cadw bellach.

Gallai'r Asiantaethau DMiAU weithio gyda'r darparwyr/canolfannau i ddatblygu canllawiau cyffredin neu ddogfennau safonol sy'n rhoi gwybodaeth am y broses asesu a'r gofynion o ran gosod aseiniadau, rhoi adborth a chadw cofnodion o ddeilliannau'r asesiadau.

## 7 Gwybodaeth bellach

Mae manylion llawn y *Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU*, yn ogystal â'r holl ganllawiau cysylltiedig i'r Asiantaethau DMiAU, y darparwyr/canolfannau sy'n cynnig cyrsiau, a'u staff sy'n ymwneud â derbyn myfyrwyr addysg uwch, ar gael ar wefan QAA.

<table>
<tr><td colspan="3"><h2>Rheoli fersiynau</h2></td></tr>
<tr><td colspan="3">Teitl y ddogfen<br><br>Y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch - Adran D: Sicrhau cydraddoldeb a safoni</td></tr>
<tr><td colspan="3">Disgrifiad o'r ddogfen<br><br>Y ddogfen hon yw Adran D y Cynllun Graddio ar gyfer Diplomâu Mynediad i Addysg Uwch sy'n crynhoi'r ffyrdd y sicrheir safonau drwy brosesau sicrhau cydraddoldeb a safoni. Mae hon yn ddogfen reoleiddiol sy'n rhan o'r Cynllun Cydnabod a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).</td></tr>
<tr><td colspan="2">Perchennog y ddogfen</td><td>Rheolwr y Diploma Mynediad i AU</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cymeradwywyd gan Fwrdd QAA</td><td>Dyddiad: Mawrth 2025</td></tr>
<tr><td colspan="2">Lleoliad cyhoeddi</td><td>https://www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au/adnoddau-yn-ymwneud--acirc--mynediad-i-au/cynllun-graddio-mynediad-i-au</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cysylltiadau â dogfennau rheoleiddiol eraill<br><br>y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch<br>yr Amodau Mynediad i AU<br>y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU - Adrannau A, C i E<br>Manyleb y Diploma Mynediad i AU<br>I weld manylion, ewch i: www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y dyddiad adolygu nesaf</td><td>Dyddiad: Gorffenaf 2028</td></tr>
<tr><td>Fersiwn</td><td>Y dyddiad cyhoeddi</td><td>Y wybodaeth wedi ei diweddaru</td></tr>
<tr><td>1.0</td><td>Gorffennaf 2024</td><td>Yr argraffiad cyhoeddedig cyntaf</td></tr>
<tr><td>2.0</td><td>Mawrth 2025</td><td>Y Cyflwyniad - yn lle pwyntiau bwled yn ymwneud â meini prawf trwyddedu, rhoddwyd y testun "Mae Adran E yr Amodau Mynediad i AU yn nodi'r gofynion o ran gosod, darparu a safoni asesiadau y mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU eu bodloni er mwyn derbyn a chadw ei thrwydded."<br><br>Y Bwrdd Dyfarnu - ychwanegwyd diffiniadau o'r termau 'dilys' a 'dibynadwy'<br><br>Safoni mewnol - addaswyd y testun i adlewyrchu gofynion Amodau E4.1 ac E4.2 yn well<br><br>Recriwtio, dethol a phenodi - addaswyd y testun i adlewyrchu gofynion Amod E4.3 yn well<br><br>Y broses safoni allanol - ychwanegwyd hyn at y rhestr o bwyntiau bwled: "bod y safonwyr yn rhoi adroddiadau rheolaidd i'r Asiantaeth DMiAU a bod hwythau'n cymryd camau gweithredu mewn ymateb iddyn nhw (Amod E4.5)."<br><br>Ychwanegwyd "Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn gyntaf ym mis Gorffennaf 2023, a chafodd ei diweddaru ym mis Gorffennaf</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | 2025<br>i gynnwys cyflwyniad yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch."<br><br>yn lle<br><br>"Mae'r adran hon o'r Cynllun Graddio'n cymryd lle'r adran gyfatebol yng Nghynllun Graddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch (Medi 2020). Mae'n berthnasol i bob myfyriwr newydd sy'n cofrestru ar gwrs Diploma o 1 Awst 2024 ymlaen. Hefyd, diweddarwyd Manyleb y Diploma Mynediad i AU i fod yn berthnasol i bob myfyriwr newydd sy'n cofrestru ar gwrs Diploma o 1 Awst 2024 ymlaen."<br><br>Diweddarwyd yr adran am reoli fersiynau |

Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn gyntaf ym mis Gorffennaf 2023, a chafodd ei diweddaru ym mis Gorfennaf 2025 i gynnwys cyflwyniad yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch.

Mewn perthynas â'r myfyrwyr hynny oedd wedi eu cofrestru cyn 1 Awst 2024, gwelwch *Fanyleb y Diploma Mynediad i Addysg Uwch* (Ionawr 2020) a'r *Cynllun Graddio* (Medi 2020) sydd ar gael ar www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au.

Diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au